Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Helyg

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Helyg yn gymuned gynhwysol ac ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn cael eu meithrin i ddatblygu'n unigolion hyderus a chyflawn. O dan arweiniad clir y pennaeth, mae diwylliant cryf o gydweithio ymysg y staff, sy'n cyfrannu'n effeithiol at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac uchelgeisiol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymddwyn yn hynod o dda, yn dangos parch at eraill ac yn cymryd balchder gwirioneddol yn eu dysgu. Mewn diwylliant o hunanfyfyrio a chefnogaeth broffesiynol barhaus, mae staff yn gweithio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm ysgogol ac mae'r profiadau dysgu yn cynnig lefel briodol o her a chefnogaeth. Mae staff yn defnyddio cwestiynu i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion, ac mae'r cynllunio'n sicrhau dilyniant adeiladol yn eu medrau. Fodd bynnag, er bod yr adborth i ddisgyblion yn gyson, nid yw bob amser yn eu helpu i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. Drwy addysgu cadarn, mae disgyblion yn gweithio'n hyderus yn unigol ac mewn grwpiau ac mae eu syniadau yn sail i gynllunio'r athrawon. Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddatblygu'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, er nid yw hyn wedi ei wreiddio'n llawn hyd yma. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal awyr agored yn hynod o grefftus i ddarparu cwricwlwm cyffrous sy'n ysgogi chwilfrydedd ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn ogystal, mae prosiectau a chyfleoedd dysgu cyfoethog yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau digidol a rhifedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth yn y 'Y Noddfa', sef darpariaeth cyfathrebu ac awtistiaeth arbenigol yr awdurdod lleol yn hynod effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei harwain yn gadarn, gyda disgyblion yn gwneud cynnydd personol cryf yn erbyn eu targedau unigol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod yr adborth i ddisgyblion yn eu cefnogi i adnabod camau nesaf yn eu dysgu

A2 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025